*This document is available in English* **Eitem ar yr Agenda 8**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Y Panel Gweithredol** |
| Dyddiad | **21 Hydref 2019** |
| Swyddog Arweiniol | **Shân Morris, Prif Swyddog Cynorthwyol (Polisi a Chynllunio Corfforaethol)** |
| Swyddog Cyswllt | **Pippa Hardwick, Rheolwr Cynllunio Corfforaethol** |
| Pwnc | **Datblygu Cynllun Gwella a Llesiant yr Awdurdod ar gyfer 2020/21** |

## PWRPAS YR ADRODDIAD

1. Rhoi'r wybodaeth diweddaraf i'r Aelodau am y cynnydd sy'n cael ei wneud tuag at ddatblygu Cynllun Gwella a Llesiant yr Awdurdod (y Cynllun) ar gyfer 2020/21.

## CRYNODEB GWEITHREDOL

2. Eleni, mae ymgynghoriad cyhoeddus yr Awdurdod yn gwahodd rhanddeiliaid i gyflwyno sylwadau am y gwaith o ddatblygu Strategaeth Amgylcheddol newydd ar gyfer yr Awdurdod o 2020 ymlaen.

3. Fel rhan o'r gwaith o ddatblygu Cynllun yr Awdurdod ar gyfer 2020/21, bydd angen gwaith ychwanegol i fynd i'r afael â materion a godwyd mewn adborth i Gomisiynydd Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ynglŷn ag i ba raddau y mae'r Awdurod yn cyfrannu tuag at nodau llesiant Cymru.

## ARGYMHELLIAD

4. Bod yr Aelodau'n nodi'r cynnydd sy'n cael ei wneud tuag at ddatblygu Cynllun Gwella a Llesiant yr Awdurdod ar gyfer 2020/21, ynghyd â'r bwriad i adolygu cydymffurfiaeth yr Awdurdod â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

## CEFNDIR

5. Rhaid i'r Awdurdodau Tân ac Achub (ATAau) yng Nghymru gyhoeddi amcanion gwella yn unol â Mesur Llywodraeth Ieol (Cymru) 2009, ac amcanion llesiant i gydymffurfio â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. I ddibenion prosesau cynllunio'r Awdurdod, mae'r rhain yn cael eu trin fel petaent yr un rhai, yn yr ystyr bod amcanion gwella tymor byr yn gallu hefyd bod yn gamau tuag at gyflawni amcanion llesiant tymor hir.

6. Mae Rhan 2 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (y Ddeddf) yn gosod dyletswydd ar yr Awdurdod i wneud gwaith datblygu cynaliadwy, sy'n gorfod cynnwys:

   a) gosod a chyhoeddi amcanion llesiant sydd wedi cael eu dylunio i wneud y cyfraniad mwyaf tuag at gyflawni pob un o'r amcanion llesiant a osodwyd ar gyfer Cymru gyfan; a
   b) cymryd pob cam rhesymol (wrth gyflawni ei swyddogaeth) i gyflawni'r amcanion hynny.

7. Mae'r Awdurdod eisoes wedi gosod dau amcan llesiant tymor hir iddo'i hun, ond mae'r Ddeddf yn gwneud darpariaeth i'r Awdurdod adolygu a diwygio ei amcanion mor aml ag y mae'n meddwl sy'n briodol.

8. Yn gynharach eleni, fe wnaeth Gweithgor Cynllunio a oedd yn cynnwys aelodau'r Panel Gweithredol wneud gwaith manwl yn gysylltiedig â datblygu Cynllun yr Awdurdod ar gyfer y flwyddyn nesaf. Roedd y Gweithgor yn argymell y dylai'r Awdurdod ystyried datblygu Strategaeth Amgylcheddol, cymeradwywyd hynny a phenderfynwyd ymgynghori ynghylch hyn yn ystod 2019 fel rhan o'r broses o ddatblygu amcanion Gwella a Llesiant ar gyfer yr Awdurdod o 2020/21 ymlaen.

**GWYBODAETH**

<u>Ymgynghoriad cyhoeddus</u>

9. Mae ymgynghoriad cyhoeddus eleni wedi dechrau erbyn hyn. Bydd unrhyw un sydd â diddordeb yn yr Awdurdod yn cael gwahoddiad i gyfrannu syniadau, awgrymiadau a safbwyntiau ynglŷn â sut gallai'r newid yn yr hinsawdd effeithio ar weithrediadau'r Gwasanaeth yn y dyfodol, a beth gallai'r Awdurdod ei wneud yn well o ran camau gweithredu sy'n gyfrifol yn amgylcheddol.

10. Fel yn y blynyddoedd a fu, mae ymgynghoriad yr Awdurdod yn cynnwys amrywiaeth o adnoddau ymgysylltu, gan gynnwys deunyddiau ar-lein a chyfarfodydd wyneb yn wyneb.

11. Bydd sylwadau a ddaeth i law yn cael eu hystyried wrth lunio'r Strategaeth Amgylcheddol newydd, ac wrth adolygu amcanion llesiant yr Awdurdod i'w cymeradwyo ym mis Mawrth 2020.

<u>Datblygu amcanion</u>

12. Mae adborth a gafwyd yn ddiweddar gan Gomisiynydd Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn cynnwys nifer o sylwadau a chyngor a fydd o reidrwydd yn rhan o arolwg yr Awdurdod o'i amcanion ar gyfer y flwyddyn nesaf.

13. Dyma fydd testun adroddiad ar wahân i'r Aelodau a fydd yn cael ei chyflwyno cyn diwedd y flwyddyn ariannol fel rhan o'r broses o ddatblygu Cynllun yr Awdurdod ar gyfer 2020/21.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Goblygiad uniongyrchol yn gysylltiedig â'r gwaith o gytuno ar y camau tuag at amcanion llesiant tymor hir yr Awdurdod. |
| Cyllideb | Mae perthynas glir rhwng cynlluniau'r Awdurdod ar gyfer 2020/21 a lefel yr adnoddau ariannol sydd ar gael. |
| Cyfreithiol | Mae'n cefnogi cydymffurfiaeth â deddfwriaeth cynlluniau gwella a llesiant. |
| Staffio | Ni wyddom a oes effaith ar lefelau staffio ar hyn o bryd. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Bydd effaith camau penodol ar yr agweddau hyn yn cael eu hasesu ar adeg briodol tra byddant yn cael eu datblygu. |
| Risgiau | Mae'n lleihau'r risgiau o beidio â chydymffurfio ac o fethu â chyllidebu a chynllunio'n briodol. |